

CYNLLUN GWERS CALCH			
Pwnc	Uned	Gwers	Cyfnod Allweddol
Daearyddiaeth	4	Golau calch	CA2/3
<p>Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhai disgyblion yn deall bod yna fanteision ac anfanteision cymhleth wrth ystyried cloddio. • Bydd mwyafrif y disgyblion yn ffurfio barn o blaid neu yn erbyn cloddio. • Bydd pob disgybl yn deall bod y dirwedd wedi'i ffurfio dros filiynau o flynyddoedd. 			
<p>Geiriau allweddol: calchfaen, chwarel, cloddio, datblygiad cynaliadwy</p>			
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Dylai'r disgyblion fod wedi ffurfio barn ynglŷn ag a ydy cloddio'n beth da neu'n beth drwg. I atgoffa'r disgyblion yn gyflym o'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu hyd yma, gofynnwch am bleidlais ddosbarth 'dwylo i fyny' i weld pwy sydd o blaid cloddio a phwy sydd yn erbyn. Gofynnwch i nifer o'r disgyblion egluro'r prif reswm dros eu penderfyniad.</p>			<p>Amseru (Yn seiliedig ar 60 mun) 5-10 mun</p>
<p>Prif ran:</p> <p>Mynd ati i gynhyrchu poster ar yr wybodaeth a gasglwyd.</p> <p>Gall posteri gynnwys map daearegol o'r ardal, gwybodaeth am y calchfaen y cafwyd hyd iddo yno, ffotograffau o nodweddion a ganfuwyd, ynghyd â disgrifiadau ysgrifenedig, cysylltiadau â safleoedd sy'n gallu rhoi mwy o wybodaeth (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) a'r ffyrdd gwahanol o ddefnyddio calchfaen wedi'i gloddio.</p> <p>Gall y disgyblion ddefnyddio'r Rhyngrwydi ddod o hyd i ddelweddau neu gallan nhw eu tynnu â llaw. Efallai y gall eu poster fod yn brotest am chwarel sy'n cael ei chynllunio ar gyfer yr ardal leol neu'n hysbyseb am weithiwr yn y chwarel.</p> <p>Rhaid i'r disgyblion ddefnyddio amrywiaeth o ddadleuon i gefnogi'r honiadau ar eu poster, a dylen nhw dreulio amser yn cynllunio'u poster cyn dechrau. Gall y posteri gael eu cwblhau fel gwaith cartref os na fyddan nhw wedi'u gorffen yn ystod y wers.</p>			<p>45 mun</p>
<p>Sesiwn lawn:</p> <p>Gall y wers a'r pwnc ddod i ben trwy i'r disgyblion ddangos eu posteri i weddill y dosbarth, ac yna trafodaeth ddosbarth a chrynhoi yn dilyn. Bydd yr athro'n dod i gasgliad fod yna ddadleuon cryf ar gyfer y ddwy ochr, o blaid ac yn erbyn cloddio. Bydd y Mynydd Du yn aros fel y mae – yn safle treftadaeth gwarchoddedig, gan ddangos ei bwysigrwydd i'r gymuned o'i gwmpas yn y gorffennol.</p>			<p>5-10 mun</p>
<p>Gwahaniaethu: Bydd pob disgybl yn gallu gweithio yn ôl ei allu ei hun wrth greu ei boster. Efallai y bydd angen cymorth ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol.</p>			
<p>Asesu: Gall yr athrawon asesu'r dysgu trwy farcio posteri a thafleuni gwaith.</p>			
<p>Adnoddau: cyflwyniad PowerPoint, papur A3/A4 ar gyfer y posteri</p>			

Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:

Llythrennedd – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol*

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd eraill â Chelfyddyd a Dylunio a Gwyddoniaeth